

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd i ddiogelu uniondeb ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sefydliad. Mae'n diffinio gwrthdaro buddiannau, yn amlinellu gofynion datgelu, ac yn disgrifio sut y dylid rheoli ac adrodd gwrthdaro.

Diffiniad o wrthdaro

Mae gwrthdaro buddiannau yn cynnwys sefyllfaoedd gwirioneddol, canfyddedig neu bosibl lle y gallai buddiannau personol amharu ar ddiueddrwydd mewn dyletswyddau proffesiynol. Gallant ddeillio o fuddiannau ariannol, perthnasoedd, cyfrifoldebau, neu aelodaeth sy'n gysylltiedig â gwaith y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS).

Cwmpas a phwrpas y polisi

Mae'r polisi yn berthnasol i bob cydweithiwr a Chyfarwyddwr Anweithredol, gyda'r nod o ddiogelu uniondeb gwneud penderfyniadau, cyfyngu ar heriau cyfreithiol, a sicrhau bod cyfrifoldebau budd cyhoedd yn cael eu bodloni.

Gofynion datgelu

Rhaid i bob cydweithiwr a Chyfarwyddwr Anweithredol ddatgan gwrthdaro wrth benodi, bob blwyddyn, a phan fydd newidiadau'n digwydd. Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol hefyd ddatgelu gwrthdaro o ddwy flynedd cyn ymuno. Mae datgeliadau yn cael eu cofnodi'n gyfrinachol a'u rhannu yn ôl yr angen.

Gwrthdaro caffael-benodol


O dan Ddeddf Caffael 2023, rhaid nodi a rheoli gwrthdaro trwy gydol prosesau caffael i atal manteision neu anfanteision annheg i gyflenwyr.

Rheoli gwrthdaro

Gellir rheoli gwrthdaro trwy dynnu'n ôl o gyfranogiad, cyfarfodydd, neu wneud penderfyniadau, neu wahardd o wybodaeth. Mae dulliau rheoli yn dibynnu ar amgylchiadau, gyda gwrthdaro Bwrdd yn cael eu hasesu gan uwch arweinwyr.

Rheolau gweithgarwch gwleidyddol

Mae aelodaeth pleidiau gwleidyddol cyffredin yn dderbyniol yn gyffredinol, ond mae rolau gwleidyddol sylweddol yn gofyn am ganiatâd a chadw at safonau ymddygiad. Mae cyfyngiadau yn berthnasol yn enwedig i rolau sensitif, gyda phroses ffurfiol ar gyfer cymeradwyo a chofnodi.





Rhoi gwybod am bryderon

Dylai cydweithwyr roi gwybod am wrthdaro sy'n effeithio arnynt eu hunain neu eraill yn brydlon i reolwyr llinell, y Tîm Llywodraethu, neu drwy sianeli chwythu'r chwiban.

Polisiâu cysylltiedig

Mae'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn cael ei gefnogi gan bolisiâu cysylltiedig ar wrth-lwgrwobrwyo, camau disgyblu, treuliau, rhoddion a lletygarwch, chwythu'r chwiban, a safonau moesegol y sector cyhoeddus.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am hyn, defnyddiwch ein tudalen manylion [Cysylltu â ni](#).